# Ein Cenhadaeth

*Rydym yn diogelu a chyn-orthwyo plant, pobl ifanc, a theuluoedd trwy:*

- *darparu gofal a chym-orth ymarferol ac emos-iynol.*
- *sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed.*



Action for Children
Gweithredu dros Blant

Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

**Families First Disabilities Service**

**CORLAN, Parc Busnes Yr Wyddgrug,
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug
CH7 1XP**

**Phone: 07971093675**

**E-mail: FFDS@actionforchildren.org.uk**

**Action for Children, whose registered address is at 3 The Boulevard, Ascot Road, Watford WD18 8AG and registered as a charitable company limited by guarantee in England & Wales under number 4764232. Registered charity numbers 1097940/SC038092.**

Action for Children
Gweithredu dros Blant

# Gwasanaeth Anabledd Teuluoedd Sir y Fflint

**Croeso i Wasanaeth Anabledd Teuluoedd Sir y Fflint dan arweiniad Gweithredu dros Blant.**

**Rydym yn darparu cyfleoedd ac yn adeiladu cysylltiadau er mwyn hwyluso rhyngweithio cymdeithasol, mynd allan i'r gymuned, a datblygu sgiliau bywyd. Mae'n wasanaeth tymor byr sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anabledd a'u teuluoedd yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dewisiadau.**



# Beth ydym ni'n ei wneud?

Ein haddewid yw y byddwn yn nodi'r hyn sydd o bwys i chi a'ch teulu a darparu cymorth a strategaethau defnyddiol i'ch helpu i oresgyn rhwystrau a chyflawni'ch amcanion dros gyfnod rhwng 6 a 12 wythnos. Defnyddiwn amrywiaeth o ddulliau i ddarparu cymorth, gan gynnwys sesiynau wyneb-yn-wyneb yn eich cartref neu yn y gymuned, sesiynau rhithwir *Microsoft Teams*, a'n clybiau cynhwysol i blant o bob oedran a gallu.

## Ein Gwerthoedd

***Bod pob plentyn a pherson ifanc yn Sir y Fflint yn cael plentyndod diogel a hapus, gan sefydlu'r seiliau iddynt ffynnu yn y dyfodol.***

# Ein Clybiau, Grwpiau, a Diwrnodau Teulu

Rydym yn addo sicrhau awyrgylch cynhwysol nad yw'n barnu neb i ganiatáu i bobl ifanc ddatblygu. Rydym yn eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau bywyd, rhyngweithio cymdeithasol a sgiliau personol a rhyngbersonol.

Mae ein Pobl Ifanc yn cael cyfle i fynychu clybiau a grwpiau cymdeithasol gyda chyfoedion a Gweithwyr Cymdeithasol profiadol yn ystod yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae'n hanfodol archebu lle ymlaen llaw gan fod nifer y llefydd yn gyfyngedig.



# Gyda phwy yr ydym yn gweithio

Mae Gwasanaeth Anabledd Teuluoedd Sir y Fflint yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint a sefydliadau eraill i ddarparu cymorth ychwanegol i blant a phobl ifanc ag anabledd, a'u teuluoedd. Ein partneriaid ar gyfer y gwasanaeth hwn yw:

- Cwmni Buddiannau Cymunedol STAND Gogledd Cymru
- Hamdden a Llyfrgelloedd Aura
- Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru
- Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint
- Blynyddoedd Cynnar a Chymorth Teuluol.

## Cydwithredu

***Rydym yn cydweithredu'n fewnol ac yn allanol gyda sefydliadau eraill i gael y canlyniadau gorau i'n teuluoedd.***

## Cynwysoldeb

***Rydym yn ymdrechu i sicrhau cynnwys pawb. Nid ydym yn gofyn "os". Rydym yn gofyn "Sut?".***